# Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol







chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar y sgiliau a'r wybodaeth y mae plant yn eu caffael yn ystod y Cyfnod Sylfaen, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid ystyried y ddogfen na'r Maes Dysgu heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cyf: AC/GM/0846
ISBN: 9780750446488
Ebrill
A-EAC-02-01-qA673006/1/AB
© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


**Cefndir** 2

**Cyflwyniad** 4

**Datblygiad personol** 5
Astudiaeth achos: Gofalu am bysgodyn aur, grifft llyffant a phenbyliaid y dosbarth

**Datblygiad cymdeithasol** 8
Astudiaeth achos: Cwningen gwtshlyd
Astudiaeth achos: Nadolig mewn gwlad bell

**Datblygiad moesol ac ysbrydol** 14

**Lles** 16
Hunaniaeth/Hunan-barch
Darlun o Maisha
Lles corfforol
Astudiaeth achos: Amser byrbrydau

**Dysgu i ddysgu/agweddau at ddysgu** 20
Astudiaeth achos: Gwneud bwgan brain
Annibyniaeth
Astudiaeth achos: Y trên trist

**Cynllunio** 26

**Cynnydd mewn dysgu** 28
Datblygiad personol
Datblygiad cymdeithasol
Datblygiad moesol ac ysbrydol
Lles

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol ar draws y cwricwlwm** 32

**Y cyd-destun cyfreithiol a moesegol** 34

**Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol** 35

**Geirfa'r Cyfnod Sylfaen** 38

**Cydnabyddiaethau** 44

# Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.



Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y ddogfen: *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau na'r Maes Dysgu na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.

Nodwch fod manylion y gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol ar dudalen 13 o'r ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Yn y bôn, bydd cynnwys addysg grefyddol yn parhau i gael ei nodi yn y maes llafur cytûn lleol a chaiff cyngor ei roi gan y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog lleol ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG), neu o dan y trefniadau a wneir gan ysgol o natur grefyddol.



# Cyflwyniad

Mae’r Maes Dysgu hwn wrth wraidd Cwricwlwm 3–7 y Cyfnod Sylfaen a dylai gael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm.

Wrth wraidd Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, mae’r broses o ddysgu drwy brofiad sy’n ganolog i arfer da ym maes addysg ar gyfer plant ifanc. Mae’r model:

- yn dechrau gyda phrofiad blaenorol neu bresennol y plant
- yn rhoi cyfle i’r plant siarad am eu profiadau, gan gynnwys rhannu profiadau diwylliannol cyfarwydd a newydd
- yn cysylltu dysgu â’r byd go iawn
- yn hybu dysgu newydd ac arfer sgiliau
- yn adolygu’r broses gyfan ac yn arwain at gynnydd mewn dysgu.

Ym maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, mae’r plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, eu cydberthnasau â phlant eraill ac oedolion yn y teulu a’r tu allan i’r teulu, diwylliant unigryw Cymru a diwylliannau eraill sy’n rhan o’r gymdeithas amrywiol yng Nghymru. Caiff cysyniadau tegwch a chyfiawnder eu cyflwyno a chaiff y plant eu hannog i feddwl am deimladau pobl eraill a’u parchu. Mae gan bwysigrwydd cymhelliant, dyfalbarhad, hunan-barch ac agwedd gadarnhaol at ddysgu oll ran bwysig i’w chwarae o ran dysgu a datblygiad plant yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae lles yn rhan annatod o ddysgu ac yn ogystal â bod yn gysylltiedig ag anghenion sylfaenol plant o ran diogelwch eiddo a diogelwch personol, bwyd a lloches, gwres a chariad, ond mae hefyd yn gysylltiedig â pha mor gysurus y mae plant yn teimlo gyda’u hunain a’u hamgylchedd. Cydnabyddir bellach bod lles yn hanfodol er mwyn dod yn ddysgwr effeithiol.

## Datblygiad personol

Fel unigolion, dylai plant gael cyfleoedd i ddysgu:

- sut i ofalu amdanyn nhw eu hunain, eu hylendid personol a'u diogelwch
- sgiliau gwisgo a dadwisgo
- annibyniaeth wrth fwyta
- sut i barchu eu hamgylchedd a defnyddio adnoddau yn adeiladol ac yn ofalus.

Gall hyn gael ei gyflawni drwy:

- gael anogaeth a chymorth unigol gan ymarferydd
- cyfleoedd dysgu digymell ac wedi'u strwythuro
- amser bwyd a byrbrydau
- gweithgareddau (corfforol) yn yr amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored.

Mewn gweithgareddau chwarae strwythuredig a thrwy brofiadau yn ymwneud â'u bywydau bob dydd, eu teuluoedd, eu cartrefi a'u ffrindiau a'u cymdogaeth, bydd plant yn:

- dysgu rhyngweithio ag eraill sy'n debyg ac yn wahanol iddyn nhw eu hunain
- meithrin ymwybyddiaeth bod pob unigolyn yn gyfwerth a dysgu cydnabod, parchu a gwerthfawrogi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn unigolion a diwylliannau
- dysgu gwerthfawrogi hawl unigolion i'w ffordd o fyw a'u credoau eu hunain.

Bydd cyfleoedd rheolaidd i blant fynegi a chyfleu eu barn, eu teimladau a'u hemosiynau yn ogystal â gwrando ar eraill, er enghraifft, yn ystod amser cylch (p'un a oes amrywiaeth ethnig yn y lleoliad/ysgol neu a yw'n fono-ethnig a heb ystyried a yw'r plant yn dod o'r prif ddiwylliant neu ddiwylliant lleiafrifol), yn gosod y sylfeini i blant ddatblygu ac yn galluogi plant i ddatblygu:

- hyder a phendantrwydd
- sensitifrwydd ac empathi at anghenion pobl eraill
- y gallu i herio stereoteipiau, rhagfarn a gwahaniaethu yn ymwneud â diwylliant, rhyw neu anabledd

- dealltwriaeth y gall agweddau hiliol gael eu newid drwy gydnabod a herio barn ac agweddau negyddol.

Bydd cyfleoedd i ofalu am anifeiliaid anwes a phlanhigion yn helpu plant i:

- ddeall bod gan bopeth byw anghenion tebyg
- dangos gofal a pharch at bethau byw.

Mae plant yn meithrin gwybodaeth, cysyniadau a sgiliau sy'n adeiladu ar eu profiadau personol, ac yn rhoi'r sgiliau iddyn nhw chwarae rhan mewn cymdeithas drwy amgylchedd dysgu sy'n adlewyrchu pob diwylliant yn briodol ac yn rhoi cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n addas ac sydd â'r adnoddau addas.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio ymateb Jack pan gyflwynwyd grifft llyffant a phenbyliaid i'r ystafell ddosbarth.**

## Gofalu am bysgodyn aur, grifft llyffant a phenbyliaid y dosbarth

Yn ogystal â rhoi cyfleoedd i Jack ddatblygu hyder a phendantrwydd a gofalu am bethau byw, gwellodd ei eirfa hefyd a daeth yn fwy hyderus wrth ryngweithio a siarad â phlant ac ymarferwyr eraill.

Roedd lleferydd Jack yn anaeddfed ac yn anodd ei ddeall. Roedd yn amharod i siarad ag ymarferwyr yn y lleoliad a dim ond â grwpiau bach o blant yr oedd yn rhyngweithio. Roedd yn aml yn treulio amser ar ei ben ei hun yn gwylio pysgodyn aur y dosbarth.

Pan gafodd grifft llyffant a phenbyliaid eu cyflwyno yn yr ysgol, roedd Jack wrth ei fodd yn eu gwylio. Am ei fod yn chwilfrydig, gofynnodd gwestiynau amdanyn nhw. O fewn ychydig ddiwrnodau, roedd Jack yn rhoi adroddiad bob dydd am eu cynnydd i ymarferwyr a phlant. Cafodd y rôl bwysig o hysbysu'r athrawes pan oedd e'n credu bod pob broga yn barod i gael ei ddychwelyd i'w bwll.

Yn sgîl y cyfrifoldeb newydd a'i ddiddordeb naturiol mewn natur, roedd Jack yn fwy hyderus wrth ryngweithio a siarad â phlant eraill ac ymarferwyr ac roedd gwelliant amlwg yn ei leferydd a'i eirfa.

# Datblygiad cymdeithasol

- I ddechrau, bydd plant yn datblygu'n gymdeithasol ac yn dysgu yn y cartref wrth iddyn nhw feithrin cydberthnasau ag aelodau o'u teulu.
- Caiff profiadau dysgu yn y cartref eu hehangu pan fydd plant yn dechrau mynychu lleoliadau/ysgolion ond byddan nhw'n parhau i dreulio rhywfaint o'u hamser yn gwneud gweithgareddau ar eu pen eu hunain, gan feithrin sgiliau newydd.
- Pan fyddan nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn grŵp bach, dylai plant gael y cyfle i ryngweithio ag ymarferydd a chael cymorth ymarferydd a dylen nhw gael eu hannog i ofyn am help os bydd ei angen arnyn nhw.
- Wrth i blant ddatblygu, gall topigau mwy heriol gael eu cyflwyno mewn ymateb i ddiddordebau a dealltwriaeth gynyddol y plant; er enghraifft, 'Straeon gwerin a chwedlau', 'Bod yn ffrind da', 'Patrymau a lliwiau'.
- Caiff y broses o drosglwyddo o'r cartref i leoliad/ysgol ei gwneud yn haws drwy roi cyfleoedd i'r plant wneud gweithgareddau chwarae rôl yn y gornel gartref neu amgylchoedd cyfarwydd eraill, megis y gornel lyfrau, sydd â dodrefn i oedolion yn ogystal â dodrefn i blant.
- Bydd geirfa plant yn datblygu'n raddol a byddan nhw'n magu hyder wrth siarad â phlant eraill ac ymarferwyr amdanyn nhw eu hunain a'r hyn y maen nhw'n ei wneud yn ogystal â dod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill ac yn eu parchu.
- Mewn lleoliadau grŵp, efallai y bydd plant yn chwarae ar eu pen eu hunain neu ochr yn ochr ag eraill, gan ryngweithio'n fwy â'u grŵp cyfoedion yn raddol wrth i'w sgiliau iaith a chyfathrebu ddatblygu ac wrth iddyn nhw ddechrau gwneud ffrindiau.
- Pan fydd plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd mewn grwpiau bach ac wedi meithrin sgiliau cyfathrebu perthnasol, gall gweithgareddau gael eu cynllunio sy'n gofyn iddyn nhw ddatrys problemau neu chwarae gemau gyda'i gilydd.
- Mae angen i blant ddatblygu ymwybyddiaeth o ganlyniadau eu gweithredoedd hefyd, er enghraifft bod curo pobl eraill yn beth drwg oherwydd byddan nhw'n cael eu brifo.
- Dylid cynnig cyfleoedd i gynnwys plant yn y gwaith o lunio rheolau syml am ymddygiad yn eu grŵp.

- Mae angen i blant ddatblygu parch at reolau ac eiddo hefyd.
- Bydd angen cymorth ymarferydd o hyd nes y bydd plant yn meithrin sgiliau cymryd tro a chadw at reolau gêm.
- Dylai plant gael eu hannog i ystyried anghenion pobl eraill ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau gofalu a rhannu.
- Mae angen i ymarferwyr fod yn sensitif i anghenion plant am gymorth i ddatblygu sgiliau canolbwyntio hefyd. Bydd angen ystod o ysgogiadau ac arferion ar rai plant i gael eu sylw a'i gynnal, fel ystumiau, synau neu gymhorthion gweledol.
- Wrth i'r plant ddatblygu, byddan nhw'n gallu cyfrannu at amrywiaeth o grwpiau at ddibenion gwahanol ac yn gallu ymgymryd â rolau yn y grwpiau hynny, er enghraifft chwarae rhannau cymeriad mewn stori neu gynnal ymchwiliad mathemategol.
- Dylai plant gael cyfleoedd i wneud gwaith cydweithredol ar brosiectau mawr, sy'n cynnwys llawer o sgiliau rhyngbersonol megis dysgu cydweithredol, gwneud penderfyniadau ac ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau gwahanol.
- Wrth i'r plant ddatblygu, byddan nhw'n gallu cydnabod materion sy'n peri pryder iddyn nhw eu hunain ac i eraill, fel yr hyn sy'n deg a'r hyn sy'n annheg.
- Gall plant roi cymorth i'w gilydd. Maen nhw'n dysgu gwneud ffrindiau a chynnal y cyfeillgarwch hwnnw ac yn dysgu sut i gymryd rhan mewn amrywiaeth o grwpiau yn y gymuned ehangach.
- Bydd plant yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o rolau gwahanol aelodau o'r gymuned drwy ddysgu amdanyn nhw, y gweithleoedd gwahanol yn yr ardal.
- Dylai plant dod yn ymwybodol o sut y gallan nhw helpu i ofalu am eu hamgylchedd.
- Mae'r cysyniad o amrywiaeth ddiwylliannol yn cwmpasu derbyn pobl a'u parchu. Mae'n golygu deall bod pob unigolyn yn wahanol ac yn unigryw. Drwy ddarparu amgylchedd diogel a chadarnhaol sy'n helpu plant i ddatblygu, byddan nhw'n cael cyfleoedd i rannu ac ystyried y gwahaniaethau hyn.
- Dylai'r Cwricwlwm Cymreig alluogi pob plentyn sy'n byw yng Nghymru i gael teimlad o berthyn i Gymru, a rhoi dealltwriaeth iddyn nhw o dreftadaeth, llenyddiaeth, celfyddydau a chefndir crefyddol Cymru, yn ogystal â'r iaith.
- Bydd plant yn dod yn ymwybodol o'u hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain a hunaniaeth ddiwylliannol pobl eraill drwy ystod o brofiadau addysgol ymarferol wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio.

- Bydd plant yn dysgu gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol drwy rannu a dathlu profiadau diwylliannol cyfarwydd a newydd, gan gynnwys rhai o'r gwyliau a'r traddodiadau mewn meysydd llafur cytûn lleol ac enwadol.



- Dylai gwahaniaethau gael eu cydnabod, eu trafod, eu parchu a'u gwerthfawrogi. Bydd agweddau tebyg hefyd, er enghraifft mae gan y rhan fwyaf o ddiwylliannau ddefodau (fel prydau bwyd i'r teulu a phenblwyddi) y bydd plant yn gallu uniaethu â nhw, er eu bod nhw'n eu dathlu'n wahanol o bosibl.
- Mae topigau fel 'Teuluoedd', 'Cartrefi', Bwydydd', 'Teganau a gemau' a 'Dathliadau', oll yn golygu y gall amrywiaeth ddiwylliannol gael ei datblygu am eu bod nhw'n ymwneud â phrofiadau pob plentyn mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, gall canolbwyntio'n benodol ar ddigwyddiadau ysblennydd neu liwgar fel y rhain arwain at stereoteipio.
- Gall gwybodaeth o agweddau gwahanol ar ddiwylliant gael eu datblygu, gan gynnwys gwisg, iaith, deiet a bwyd, ffyrdd o fwyta, disgyblaeth, cwrteisi, traddodiadau ac arferion, cerddoriaeth, celf, dawns a llenyddiaeth.
- Dros amser bydd plant yn dysgu am gefndiroedd a ffyrdd o fyw gwahanol, ac yn dysgu eu parchu yn yr un modd a gwerthfawrogi cyfraniadau amrywiol diwylliannau gwahanol i gymunedau yng Nghymru.
- Mae dathlu rhai o wyliau'r prif grefyddau yn rhoi cyfleoedd cadarnhaol i ddysgu am gredoau ac arferion gwahanol. Gall agweddau ar ddiwylliant fel llenyddiaeth, celf, cerddoriaeth, symbolau a phensaernïaeth fod yn gysylltiedig â chrefyddau.
- Er mwyn gallu empatheiddio ag eraill, bydd angen i blant archwilio eu hunaniaeth a'u teimladau personol a diwylliannol eu hunain, a mynegi eu barn drwy chwarae a siarad, tynnu lluniau, paentio a mathau eraill o gynrychioli.
- Gall materion o ran tegwch a chyfiawnder, hawliau a chyfrifoldebau gael eu cyflwyno pan fydd plant yn gallu gwerthfawrogi teimladau pobl eraill.
- Mewn lleoliadau/ysgolion mono-ethnig yn bennaf, gall dealltwriaeth plant o ddiwylliannau gwahanol gael ei hymestyn drwy gyfathrebu (e.e. drwy anfon negeseuon e-bost) â phlant mewn lleoliadau eraill â chyd-destunau diwylliannol gwahanol.

**Rydw i'n defnyddio'r Cwningen gwtshlyd (cwningen fach degan) i gysuro plentyn gyda 'hud' pan fydd yn anhapus – efallai pan fydd yn gadael mam, neu ar ôl iddo gwympo neu gweryla gyda ffrind, pan na fydd plentyn yn teimlo'n dda, ac ati.**

## Cwningen gwtshlyd

Mae hyn yn effeithiol iawn ac mae'n ymddangos ei fod yn helpu plant i gydnabod a mynegi eu teimladau'n haws yn ogystal ag ymdrin â nhw'n haws. Gallan nhw ddod atoch a gofyn am gael dal y Gwningen gwtshlyd am amrywiaeth o resymau ac wedyn maen nhw'n cydnabod y gallan nhw roi cysur iddyn nhw eu hunain gan fod yn annibynnol i ryw raddau. Hefyd, mae'n ymddangos bod y gwningen fach hon yn annog plant i gydnabod teimladau plant eraill ac empatheiddio â nhw; yn aml mae plant yn gofyn am y Gwningen gwtshlyd i'w rhoi i blentyn arall yn y dosbarth "i wneud i'r plentyn hwnnw deimlo'n well". Mae'n amlwg ei bod yn bwysig mai dim ond at y diben hwn y caiff y Gwningen gwtshlyd ei defnyddio ac felly mae'n cadw ei phwerau hud.



**Yn yr astudiaeth achos hon, caiff profiadau gwyliau un plentyn eu defnyddio fel symbyliad i blant Blwyddyn 2 ystyried yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng eu ffordd nhw o fyw a ffordd o fyw plant mewn rhan arall o'r byd.**

## Nadolig mewn gwlad bell

Un bore ym mis Ionawr, yn ystod amser cylch, yn gyffro i gyd dyma Aled yn dweud wrth y plant eraill am ei wyliau Nadolig diweddar yn ymweld â rhai o'i deulu sy'n byw yn Awstralia. Roedd y profiad wedi bod yn wahanol iawn i Nadolig yng Nghymru. Roedd y tywydd wedi bod yn boeth ac roedd Aled wedi treulio dydd Nadolig ar y traeth yn chwarae, ac wedi mwynhau picnic yn ginio Nadolig. Yng Nghymru, roedd hi wedi bod yn oer iawn ac roedden ni i gyd wedi mwynhau cinio rhost.

Cafodd y plant eu hudo gan wyliau Aled, ond roedden nhw'n awyddus hefyd i wybod a oedd gan gefndryd Aled goeden Nadolig ac a oedden nhw'n rhoi anrhegion a chardiau i'w teulu a'u ffrindiau. Roedd rhai am wybod pa mor bell oedd Awstralia ac felly aethon nhw ati i chwilio yn ein llyfr mapiau. Am fod gan y plant gymaint o ddiddordeb yn y drafodaeth, penderfynes innau ymuno â nhw.

Dechreues i dynnu cymaint â phosibl o sylw at y tebygrwydd rhwng Cymru ac Awstralia, gan wneud rhestr o osodiadau, i'r plant eu didoli rhwng 'tebyg' a 'gwahanol'. Er enghraifft byddai 'Mae plant yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau' yn cael ei roi yn y categori 'tebyg'. Byddai 'Gwlad fawr yw Awstralia' yn enghraifft o rywbeth 'gwahanol'.

Yn nesaf, gwahoddes i'r plant i wneud eu gosodiadau eu hunain. Ar ôl ymarfer, cafodd dau ddarn mawr o bapur siwgr eu codi yn y dosbarth i'r plant gael ychwanegu eu gosodiadau. Pa restr fyddai'r hiraf? Ar y dechrau, roedd y plant yn meddwl mai rhestr y categori 'gwahanol' fyddai'r hiraf o bosibl, ond dangoswyd bod mwy o debygrwydd nag o wahaniaeth mewn gwirionedd.

Gallai pwyntiau trafod eraill gynnwys y canlynol.

Yn Awstralia:

- mae bechgyn a merched yn mwynhau chwarae gemau
- rhaid i blant ddod â'u pen eu hunain i'r ysgol
- mae merched bach yn mwynhau gwisgo ffrogiau pert
- mae plant yn helpu o gwmpas y tŷ
- mae ffrindiau'n helpu ei gilydd
- mae pobl wrth eu bodd yn cael hwyl
- mae plant wrth eu bodd gydag anifeiliaid.



## Datblygiad moesol ac ysbrydol

- Bydd plant yn darganfod rhai o ffiniau ymddygiad (yr hyn y caniateir/nas caniateir iddyn nhw ei wneud) a'r hyn sy'n dderbyniol drwy arsylwi ymddygiad ac agweddau cadarnhaol pobl eraill.
- Weithiau, mae'n bosibl na fydd y disgwyliadau mewn lleoliad/ysgol yn gyson â'r rhai gartref ond mae angen i blant ddysgu'r rhesymau dros ymddygiad penodol.
- Yn y pen draw, y nod yw sicrhau y bydd plant yn gallu cyfathrebu ynglŷn a da a drwg, cywir ac anghywir, teg ac annheg, gofalgar a difeddwl eu hunain a'u rheoli eu hunain.

  Mae'n bwysig, wrth ganmol neu geryddu ymddygiad, ei bod yn amlwg mai'r weithred sy'n cael ei chymeradwyo neu ei hanghymeradwyo yn hytrach na'r plentyn.
- Cyn dysgu empatheiddio ag eraill, mae angen i blant allu cydnabod eu teimladau eu hunain a myfyrio arnyn nhw.
- Mae'r ymarferydd yn esiampl bwysig o'r math o ymddygiad a ddisgwylir mewn sefyllfaoedd gwahanol.
- Mae'n fwy anodd diffinio datblygiad ysbrydol na datblygiad moesol, am fod hyn yn golygu myfyrio'n ddwfn.
- Gellir rhoi cyfleoedd i blant gael profiad o amseroedd tawel a llonydd ac ymateb iddyn nhw. Dylen nhw gael eu hannog i arsylwi ffenomena naturiol (megis lliwiau'r hydref, neu gysgodion) a myfyrio arnyn nhw, cau eu llygaid a gwrando ar synau o'u hamgylch (fel cân adar neu gerddoriaeth glasurol), neu fod yn dawel iawn a meddwl am rywbeth sy'n hardd yn eu barn nhw. Dylai pob ymateb gael ei barchu a'i werthfawrogi.
- Gall gwerthoedd gael eu datblygu drwy roi cyfleoedd i blant rannu eu syniadau am bethau sy'n bwysig iddyn nhw neu rywbeth y maen nhw'n falch ohono mewn darn o waith maen nhw wedi'i wneud.
- Mae amser cylch yn ffordd ddelfrydol o alluogi plant i gymryd eu tro i siarad mewn sefyllfa grŵp a gwrando ar syniadau plant eraill. Mae addoli ar y cyd yn gyfle arall i rannu credoau a syniadau.
- Gall achlysuron arbennig fel penblwyddi a digwyddiadau crefyddol gael eu dathlu drwy greu awyrgylch arbennig i sicrhau bod pobl yn cofio'r digwyddiad, er enghraifft drwy ddefnyddio canhwyllau a cherddoriaeth.



# Lles

## Hunaniaeth/Hunan-barch

- Er mwyn teimlo'n hapus ynghylch pwy ydyn nhw a sut maen nhw'n rhan o grwpiau, bydd angen i blant ddatblygu hunanymwybyddiaeth fel unigolion ac fel rhan o gymdeithas ehangach. Bydd hyn yn cynnwys hunan-barch, hunanwybodaeth, hyder, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u derbyn gan bobl eraill, gallu mynegi eu barn a'u teimladau a'u deall, gallu ymwneud â phobl eraill a gweithio gyda nhw.
- Mae amser cylch yn ffordd gyfarwydd o gyflwyno materion yn ymwneud â theimladau ac ymatebion, credoau a barn bersonol mewn trafodaeth. Mae'n bosibl annog plant i ymateb i luniau, pypedau, doliau a chymeriadau stori. Dylen nhw gael cyfleoedd i ystyried agweddau ar eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol eu hunain a hunaniaeth bersonol a diwylliannol pobl eraill a dechrau cwestiynu stereoteipio.
- Mae angen i blant ifanc feithrin agweddau cadarnhaol ac felly mae'n bwysig cyfleu negeseuon cadarnhaol sy'n dangos y caiff pob plentyn ei werthfawrogi a'i barchu.
- Bydd plant yn dechrau datblygu teimlad o hunaniaeth os gallan nhw weld eu hunain mewn drychau a lluniau mewn amrywiaeth o weithgareddau.
- Bydd plant yn dechrau datblygu teimlad o berthyn wrth iddyn nhw ryngweithio ag eraill yn eu teulu, eu ffrindiau ac aelodau'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru a dechrau siarad Cymraeg.
- Mae topigau fel 'Amdana i fy hun' neu 'Fi fy hun' yn galluogi plant i ystyried hunaniaeth, tebygrwydd a gwahaniaethau, ynghyd â thrafod y pethau maen nhw'n eu hoffi neu maen nhw'n eu casáu, hoff fwydydd, arferion, ac ati. Gallan nhw ddysgu am enwau gwahanol, sylwi ar wahaniaethau gweledol drwy gynhyrchu a chymharu hunan-bortreadau, rhoi sylw i fanylion, unigoliaeth, yr hyn sy'n arbennig am bob un ohonyn nhw.
- Os bydd plant yn teimlo'n ddiogel, heb ofn methu na chael eu beirniadu, byddan nhw'n gallu cael budd o'r profiadau dysgu a gaiff eu rhoi iddyn nhw drwy roi cynnig ar weithgareddau newydd, gwneud penderfyniadau, cymryd risgiau angenrheidiol a datblygu rheolaeth gynyddol dros eu bywydau eu hunain.
- Dylai plant gael gwybod am bwysigrwydd bwyd a dŵr i'w cyrff, sut i wneud dewisiadau bwyd iach a phwysigrwydd ymarfer corff.

## Darlun o Maisha

**Mae'r darlun hwn gan blentyn, yn seiliedig ar gymeriad o lyfr, yn adlewyrchu'r agweddau cadarnhaol y mae wedi'u meithrin a'r ffaith ei bod yn derbyn pobl eraill.**

Roedd y plant yn gwneud darlun o gymeriad o'i hoff straeon. Roedd y cymeriadau yn dod o sawl hil wahanol a gofynnwyd i'r plant ddewis un. Dywedodd plentyn wrthyf i ei bod am baentio Maisha, merch o Affrica, am ei bod yn edrych yn bert.



## Lles corfforol

Mae lles corfforol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth gynyddol plant o'u cyrff eu hunain a datblygiad eu hiechyd personol, gan gynnwys maeth a diogelwch personol.

Bydd angen i blant ddysgu sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach yn gorfforol. Dylai eu rhaglen ddysgu gynnwys gwybodaeth am:

- beth i'w wneud neu at bwy y dylen nhw fynd os na fyddan nhw'n teimlo'n ddiogel neu os bydd angen cymorth arnyn nhw
- pwysigrwydd bwyd a dŵr i'w cyrff
- pwysigrwydd bwyta'n iach a sut i wneud dewisiadau bwyd iach sy'n cynnwys y bwydydd a ddylai fod yn rhan o ddeiet cytbwys
- pwysigrwydd ymarfer corff
- diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch dŵr a pheryglon yn y cartref
- rhannau gwahanol corff bachgen a merch a'r gwahaniaeth rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol
- meddyginiaethau a gymerir i'w gwneud iddyn nhw deimlo'n well, a pheryglon cyffuriau, smygu, alcohol a sylweddau peryglus eraill.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut y mae'r plant yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn cael eu cynnwys yn amser byrbrydau'r prynhawn.**

## Amser byrbrydau

Roedd rhieni/gofalwyr yn pryderu nad oedd eu plant yn bwyta cinio, am eu bod ar lwgu pan oedden nhw'n cyrraedd adref ar ôl yr ysgol. Fe wnes i sicrhau'r rhieni/gofalwyr bod eu plant yn bwyta cinio ond bod y prynhawn rhwng canol dydd a hanner awr wedi tri yn gyfnod hir a phrysur. Cynigiais gyflwyno amser byrbrydau i'r rhieni/gofalwyr ac wedyn i'r plant; roedd pawb yn ymddangos yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig iawn am y syniad.

Mae'r plant yn talu £1 yr wythnos a gallan nhw ddewis grawnfwyd, cracers, caws, ffrwythau/llysiau bob dydd.

Mae'r plant hefyd yn helpu i baratoi rhai o'r ffrwythau, dosbarthu cwpanau a phlatiau, ac yna dewis beth maen nhw am ei fwyta. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am glirio eu llestri eu hunain drwy eu golchi a'u sychu.

Mae amser byrbrydau'r prynhawn yn cymryd 20 munud ac mae'n digwydd cyn amser chwarae'r prynhawn. Mae'n ymddangos ei fod yn helpu i gynnal lefelau egni'r plant ac yn eu helpu i ganolbwyntio am weddill y dydd. Maen nhw wedi rhoi cynnig ar fathau gwahanol o fwydydd gan gynnwys ffrwythau/llysiau nad oedden nhw wedi rhoi cynnig arnyn nhw o'r blaen neu nad oedden nhw'n eu hoffi.



## Dysgu i ddysgu/agweddau at ddysgu



- Caiff plant eu cymell yn naturiol i ddysgu drwy chwilfrydedd ac awydd i archwilio eu hamgylchedd a darganfod mwy amdano, mewn ffordd gorfforol i ddechrau ac, wrth i'w hiaith ddatblygu, drwy ofyn cwestiynau a siarad am eu profiadau.
- Mae plant yn meithrin sgiliau defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hawdd a dylen nhw gael rhaglen o sgiliau wedi'u haddysgu iddyn nhw, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio TGCh yn annibynnol.
- Dylai sgiliau holi, cwestiynu a cheisio gwybodaeth gael eu meithrin a'u datblygu fel sgiliau dysgu gydol oes.
- Os bydd gweithgareddau yn heriol, a hynny mewn ffordd briodol, ond ddim yn rhy anodd, byddan nhw'n ennyn diddordeb y plant, a bydd hynny i'w weld am eu bod yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau i ddysgu sgiliau newydd a manteisio ar gyfleoedd newydd.
- Bydd dysgu i ddysgu, gan addasu dysgu i sefyllfaoedd a phrofiadau newydd a mynd i'r afael â nhw mewn amgylchedd nad yw'n fygythiol yn meithrin sgiliau parhaol a fydd yn galluogi plant i ddatblygu ac addasu i ofynion cymdeithasol sy'n newid yn barhaus.
- Pan fydd gweithgareddau yn addas i'w hanghenion a'u diddordebau, bydd plant yn ymlacio, yn mwynhau dysgu, yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn yr hyn maen nhw'n ei wneud.
- Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu, sy'n cael eu dylanwadu gan deimladau plant, yn dibynnu ar awydd plant i ddysgu a fod eu profiadau dysgu ynddyn nhw eu hunain yn rhoi boddhad. Mae goblygiadau i hyn o ran yr ymagweddau addysgu a gaiff eu defnyddio a sensitifrwydd yr ymarferydd i ddiddordebau plant, a'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau sy'n datblygu.
- Bydd arsylwi lles plant a'u cynnwys yn y broses ddysgu yn dangos pa mor dda y mae gweithgareddau dysgu wedi'u cysylltu â lefel ddatblygol y plant.
- Cyflwynodd yr Athro Laevers o Ganolfan Addysg Brofiadol Leuven, Gwlad Belg, y term 'involvement' i ddisgrifio lefel ganolbwyntio ddwfn plant pan fydd gweithgareddau dysgu yn diwallu eu hanghenion.



**Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y diddordeb a ddangosodd grŵp cymysg o blant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn eu dysgu.**

## Gwneud bwgan brain

Dechreuodd y gweithgaredd hwn gyda stori am fwgan brain. Roedd y plant mor frwdfrydig am y stori fel y gofynnodd sawl un ohonyn nhw ar unwaith a allen ni wneud ein bwgan brain ein hunain. Daethon ni o hyd i grys a oedd wedi cael ei ddefnyddio fel ffedog baentio a hen drowsus o eiddo coll. Trafodon ni pa ddeunydd y gallen ni ei ddefnyddio i lenwi'r bwgan brain ac edrychon ni ar y llyfr eto, ac yna penderfynon ni ddefnyddio dail yr hydref wedi'u casglu o'r tu allan. Gwnaethon ni ddyfalu sawl bwcedaid o ddail y byddai eu hangen arnon ni. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant wneud amcangyfrif call o gynhwysedd. Cafodd y dail eu casglu a'u rhoi i mewn i'r dillad. Roedd dail bob man.

Wedyn gwnaethon ni roi dail mewn bag plastig i greu pen y bwgan brain a rhoi defnydd drosto fe. Gwnaethon ni roi llygaid a thrwyn arno ef a gofynnodd y plant a allwn i wnïo ceg i wneud gwên. Daethon ni o hyd i bolyn i gadw'r bwgan brain yn syth a phenderfynon ni y bydden ni'n ei roi mewn bwced o dywod. O fewn awr neu ddwy o orffen y stori, roedd y plant wedi gwneud eu bwgan brain eu hunain.

Fel athrawes ddosbarth rydw i wedi gweld ei bod yn werth chweil ceisio defnyddio syniadau'r plant. Mae'r brwdfrydedd y maen nhw'n ei greu drwy feddwl am eu syniad eu hunain a'i roi ar waith yn amlwg yn yr ystafell ddosbarth weithiau. Roeddwn i wedi cynllunio rhywfaint o waith dilynol ar stori'r bwgan brain, ond dim hyn. Gallwn i weld y potensial o ddilyn syniad y plant, yn hytrach na'i atal a rhoi fy nghynlluniau i ar waith.


Croeso i'r
dosbarth

## Annibyniaeth

- Caiff annibyniaeth ei hyrwyddo drwy ddarparu amgylchedd dysgu trefnus ac ysgogol, lle y gall y plant gael gafael ar adnoddau'n hawdd.
- Bydd plant sy'n cymryd rhan yn y broses o ddewis adnoddau, gan fod yn gyfrifol am ofalu amdanyn nhw a'u dychwelyd ar ôl eu defnyddio, yn datblygu blaengaredd a chyfrifoldeb.
- Fel rhan o gwricwlwm amrywiol a diddorol, mae caniatáu i blant feddwl am rai o'u gweithgareddau eu hunain (gan drafod gydag ymarferydd) yn helpu i hyrwyddo llawer o gyfranogiad ac agweddau cadarnhaol at ddysgu, ar unwaith ac yn y tymor hwy.
- Mae hyn yn galluogi plant i ddatblygu diddordeb mewn ffordd drylwyr; efallai y byddan nhw am ddychwelyd i weithgaredd sawl gwaith, a dylid darparu ar gyfer hyn.
- Mae annog plant i fod yn bartneriaid yn y gwaith o gynllunio eu gweithgareddau dysgu, yn eu gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddysgu'n annibynnol yn dangos parch at hawliau plant, fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989).
- Pan fydd plant wedi cwblhau eu gweithgareddau dylen nhw gael eu hannog i rannu eu dysgu gydag eraill a gwerthuso'r hyn y maen nhw wedi'i fwynhau, yn falch ohono fe neu'r hyn y bydden nhw'n ei wella o bosibl yn y dyfodol. Mae hyn yn cyflwyno rhywfaint o hunanwerthuso a phennu targedau personol o oedran cynnar. Caiff plant eu hannog hefyd i wrando ar eraill a dysgu bod ffyrdd gwahanol o wneud pethau.

**Yn yr astudiaeth achos hon, caiff grŵp bach o blant, fel rhan o gwricwlwm amrywiol a diddorol, eu hannog i feddwl am rai o'u gweithgareddau eu hunain, i hyrwyddo llawer o gyfranogiad ac agweddau cadarnhaol at ddysgu, ar unwaith ac yn y tymor hwy.**

## Y trên trist

Mae'r plant yn datblygu diddordeb mewn ffordd drylwyr ac maen nhw wedi dychwelyd iddo sawl gwaith.

Roedd grŵp bach o blant yn chwarae yn yr ardal adeiladu gyda thrên mawr yn ceisio adeiladu trac trenau gyda set o flociau pren, ond roedd y trên yn rhy fawr i fynd drwy'r unig dwnnel y gallen nhw ddod o hyd iddo ef yn y feithrinfa. Sut gallai'r plant helpu'r trên?

"Bydden ni'n gallu adeiladu twnnel. Gadewch i ni ddefnyddio'r blociau." Roedd y plant yn gweithio fel tîm i gasglu'r blociau y byddai eu hangen, yn eu barn nhw, ac roedd y rhain yn cynnwys rhai mawr a rhai crwn.

Roedd un ferch fach fel petai ar wahân i'r grŵp. Doedd hi ddim yn cymryd cymaint o ran â'r lleill, ond cymerodd hi ran lawn yn y trafodaethau a'r penderfyniadau, gan gyflawni rôl yr arweinydd yn aml pan oedden nhw'n dechrau siarad ac egluro beth roedden nhw'n ei wneud.

"Mae angen adeiladu'r rheilen yn gyntaf."

Mae gan y trên dwnnel bellach a gall fynd drwyddo: "Edrychwch ar y trên, mae e'n hapus nawr." Arhosodd dau o'r plant yn yr ardal adeiladu gan adeiladu twnnel arall i'r trên ei ddefnyddio. Roedden nhw'n gweithio gyda'i gilydd ond heb lawer o drafodaeth.



## Cynllunio

Sampl yw'r canlynol o sut mae un ysgol yn cynllunio ar gyfer agweddau ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol mewn modd cyfannol ar draws y Meysydd Dysgu.

| Cysylltiadau â Meysydd Dysgu eraill (er mwyn sicrhau eu gweithredu'n gyfannol) | Gweithgareddau ac adnoddau | Asesu |
|---|---|---|
| Datblygiad Creadigol<br><br>Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br><br>Datblygiad Corfforol<br><br>Datblygu'r Gymraeg | Cân – Pwy wyt ti?<br><br>Postio enwau mewn blychau<br><br>Ysgrifennu enwau mewn tywod<br><br>Adnoddau:<br>Plant, pypedau, enwau, blychau postio, tywod, glud, cerdyn | Ymarferydd i nodi:<br>• pwy sy'n ateb yn briodol ac yn unigol<br>• pwy sy'n adnabod enwau<br>• deheurwydd. |
| Datblygiad Mathemategol<br><br>Datblygiad Creadigol<br><br>Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | Canu rhifau 1–10<br><br>Adnabod rhifau 1–3<br><br>Adnoddau:<br>Llinell rif | Nodi adnabod rhif |

Mae'r enghraifft ganlynol o ddau weithgaredd a wnaed ar adegau gwahanol yn ystod y tymor yn dangos y cynnydd a wneir gan blant mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol:

## Gweithgaredd 1

Mae plant yn dechrau rhyngweithio mwy gyda'u cyfoedion, datblygu cyfeillgarwch a pharch at reolau ac eiddo.

| Gweithgareddau ac adnoddau | Ymglymiad yr ymarferydd | Asesu |
|---|---|---|
| Bydd y plant yn cael eu hyfforddi/dangos sut i wisgo bathodynnau, i chwarae yn/â/ar y fferm, tŷ, siop, tywod, cornel llyfrau, pypedau, cyfrifiadur, offerynnau cerddorol.<br><br>Adnoddau:<br>Bathodynnau | Yn y gweithgareddau hyn bydd ymarferwyr yn chwarae gyda grwpiau o blant er mwyn sicrhau tegwch. | Ydy'n deg?<br><br>Nodi ymateb(ion) nifer cyfyngedig o blant sy'n ymwneud â gweithgaredd. |

## Gweithgaredd 2

Mae plant yn dechrau datblygu o ran dewis adnoddau, gan gymryd cyfrifoldeb am ofalu amdanyn nhw a'u dychwelyd ar ôl eu defnyddio a datblygu blaengaredd.

| Gweithgareddau ac adnoddau | Ymglymiad yr ymarferydd | Asesu |
|---|---|---|
| Mae'r plant â gofal y gegin er mwyn ei chadw'n daclus ac yn ymgymryd â rôl teulu.<br><br>Adnoddau:<br>Cegin | Bydd ymarferydd yn chwarae â'r plant ac yn ymyrryd pan fydd yn addas (defnyddio llyfrau chwarae i awgrymu sgyrsiau). | Nodi sgiliau sgwrsio'r plant (yn enwedig eu defnydd o frawddegau).<br><br>Nodi pwy sy'n medru ymgymryd â rôl. |

# Cynnydd mewn dysgu

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen. Dylid cynllunio ar gyfer hyn ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a thrwy weithgareddau ymarferol a strwythuredig a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau penodol plant. Bydd plant yn cyflawni'r elfennau amrywiol pan fyddan nhw'n barod yn ddatblygiadol.

## Datblygiad personol

Dylai'r ffaith bod plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen eu galluogi i deimlo'n hyderus i archwilio cyfleoedd dysgu newydd ac arbrofi gyda nhw a meithrin agwedd briodol at ddysgu. Dylid hyrwyddo datblygiad hunanhyder a hunan-barch plant a'u gallu i barchu anghenion pobl eraill a chymryd cyfrifoldeb am hylendid personol mewn ffordd sensitif. Wrth iddyn nhw symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, dylai plant gael cyfleoedd i:

- ddod yn fwy annibynnol wrth ddiwallu eu hanghenion o ran hylendid personol a bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol
- mynegi a chyfleu teimladau ac emosiynau gwahanol (er enghraifft, hapusrwydd, cyffro, cariad, tristwch a dicter) – rhai eu hunain a rhai pobl eraill
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol at brofiadau a dysgu newydd, cymryd risgiau ac archwilio eu hamgylchedd yn hyderus (dan do ac yn yr awyr agored), ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd (gan gynnwys TGCh)
- meddwl a dysgu'n annibynnol, datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda a deall sut y gallan nhw wella eu dysgu a defnyddio adborth i wella eu gwaith
- canolbwyntio am gyfnodau hirach a gwerthfawrogi eu dysgu, eu llwyddiant a'u cyflawniadau nhw eu hunain a dysgu, llwyddiant a chyflawniadau pobl eraill.

## Datblygiad cymdeithasol

Dylai’r ffaith bod plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen eu galluogi i ddatblygu’r sgiliau priodol i gyfathrebu a meithrin cydberthnasau cadarnhaol ag eraill i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac yn aelodau o’u cymunedau. Dylai datblygiad sgiliau plant fod yn rhan annatod o’r cwricwlwm. Wrth iddyn nhw symud drwy’r Cyfnod Sylfaen, dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu gallu i:

- fod yn ymwybodol o anghenion eraill a’u parchu, i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain, ynghyd ag ystyried canlyniadau geiriau a gweithredoedd iddyn nhw eu hunain ac i eraill
- datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau’r lleoliad/ysgol o ran ymddygiad a deall bod rheolau yn hanfodol mewn cymuned drefnus
- datblygu dealltwriaeth o’r hyn sy’n deg ac yn annheg (a deall beth sy’n dda a drwg yn eu barn nhw) a bod yn barod i gyfaddawdu
- meithrin cydberthnasau a theimlo’n hyderus i chwarae a gweithio gyda’i gilydd, gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd a bod yn ofalgar ac yn ystyriol
- datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn
- datblygu agweddau cadarnhaol a dealltwriaeth o bwy ydyn nhw yn eu teulu ac o fewn cymunedau gwahanol ynghyd â dealltwriaeth o’u hunaniaeth Gymreig eu hunain
- cael profiad o’r arferion, y defodau a’r digwyddiadau gwahanol sy’n agweddau pwysig ar y diwylliannau yng Nghymru a dechrau datblygu dealltwriaeth ohonyn nhw
- datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl eraill yn eu diwylliant eu hunain ac mewn diwylliannau eraill
- trin pawb o bob cefndir diwylliannol mewn ffordd oddefgar a llawn parch, datblygu dealltwriaeth o’r amrywiaeth o rolau y mae pobl yn eu chwarae mewn grwpiau a chymunedau gwahanol, a dechrau cwestiynu stereoteipio.

## Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylai profiadau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen annog plant i gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau amdanyn nhw eu hunain, pobl eraill a'r byd. Dylen nhw ddeall bod pobl yn hoffi pethau gwahanol a bod ganddyn nhw safbwyntiau a chredoau gwahanol, a gwybod bod pawb yn wahanol ond deall bod pawb yn gyfwerth. Dylai plant gael cyfleoedd i ystyried a gwerthuso eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad pobl eraill. Dylen nhw gael eu hannog i ofyn cwestiynau anodd am fywyd ac ymateb iddyn nhw, a chydnabod gwerth bywyd. Wrth iddyn nhw symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, dylai plant gael cyfleoedd i:

- ymateb i syniadau a chwestiynau mewn ffordd frwdfrydig, sensitif, creadigol a greddfol, a dechrau herio stereoteipio a sylwadau ac ymddygiad hiliol
- cyfleu/siarad am yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn ddifeddwl
- cyfleu/siarad am y penderfyniadau a gaiff eu gwneud mewn straeon a sefyllfaoedd a myfyrio arnyn nhw neu awgrymu ymatebion amgen eu hunain
- ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau
- defnyddio straeon neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau ynghylch pam mae rhai pethau yn arbennig; cael profiad o adegau cyffrous, gwych, ysbrydoledig, creadigol a/neu dawel
- mynegi syniadau a theimladau'n greadigol, gan egluro pam maen nhw'n bwysig
- siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth yn ogystal â gofyn cwestiynau ynghylch sut a pham dylai parch gael ei ddangos at bethau arbennig ac ymateb yn bersonol; dylen nhw hefyd gael profiad o adegau cyffrous, gwych, ysbrydoledig, creadigol a/neu dawel a mynegi syniadau a theimladau am yr adegau hyn yn greadigol
- gwerthuso penderfyniadau cymeriadau, gan awgrymu ymatebion amgen, ac ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau; gofyn cwestiynau am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill; siarad am adegau cyffrous, gwych, ysbrydoledig, creadigol a/neu dawel a gafwyd, gan egluro pam roedden nhw'n bwysig.

## Lles

Dylai'r ffaith bod plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen eu hannog i fod ag agwedd agored a llawn diddordeb at yr amgylchedd a dysgu, a magu eu hyder a'u hunan-barch. Dylen nhw deimlo'n ddiogel, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ogystal, dylen nhw deimlo y caiff eu cyfraniad eu parchu'n gyfartal. Mae angen i blant ddeall y gallan nhw gyfrannu at eu diogelwch eu hunain a bod ganddyn nhw'r hawl i ddweud 'na' os byddan nhw'n teimlo o dan fygythiad/ofnus/anghysurus gydag unigolyn/sefyllfa. Dylen nhw hefyd ddeall ei bod yn dderbyniol torri'r rheolau o dan rai amgylchiadau lle y caiff eu diogelwch personol eu hun ei fygwth. Dylai plant ddatblygu dealltwriaeth o'u cyrff nhw eu hunain a sut i'w cadw'n iach ac yn ddiogel. Wrth iddyn nhw symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, dylai plant gael cyfleoedd i:

- werthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill a chyfrannu ato, a bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol
- deall y gydberthynas rhwng teimladau a gweithredoedd a bod gan bobl eraill deimladau
- dangos gofal, parch ac anwyldeb at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd
- meithrin diddordeb cynyddol yn y byd o'u hamgylch a deall beth sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig pan fyddan nhw'n chwarae ar eu pen eu hunain a gydag eraill
- deall a chydnabod y newidiadau i'w cyrff wrth iddyn nhw wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau i'w ffordd o anadlu, cyfradd y galon, eu hymddangosiad a'u teimladau
- datblygu dealltwriaeth bod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig ar gyfer cyrff iach, ac y bydd angen iddyn nhw baratoi ar gyfer gweithgarwch yn briodol a chymryd y camau priodol ar ôl gweithgarwch er mwyn cadw eu cyrff yn ddiogel
- datblygu dealltwriaeth am y peryglon yn y cartref a'r awyr agored, a deall y caiff meddyginiaethau eu cymryd i'w gwneud iddyn nhw deimlo'n well, a bod rhai cyffuriau yn beryglus.

# Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol ar draws y cwricwlwm

Er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol a lles, mae angen cynllunio gofalus ar draws pob Maes Dysgu i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau i fynd ati i feddwl, dysgu a gwneud penderfyniadau ac i ryngweithio ag eraill – dysgu helpu, rhannu, cydweithredu, nodi problemau a'u datrys. Dylai plant cael cyfleoedd i ddatblygu, weithredu ac ehangu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig, ac o'r diwylliannau, traddodiadau a dathliadau sy'n bodoli yng Nghymru heddiw. Mae yna lawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth o fewn Meysydd Dysgu eraill ac o fewn y gwahanol feysydd addysgu yn y lleoliad/ysgol, er enghraifft:

## Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- cyfleu anghenion, mynegi teimladau a barn trwy chwarae rôl/gweithgareddau dramatig
- trwy ymdrin â llyfrau o wahanol ddiwylliannau i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o'r ieithoedd gwahanol sy'n bodoli yng Nghymru – sut maen nhw'n swnio ac yn edrych

## Datblygiad Mathemategol

- trwy gyfrif mewn arferion beunyddiol – faint o blant sy'n cael cinio, trwodd i adio/tynnu/lluosi wrth brynu a gwerthu ffrwythau a llysiau o werthwr llysiau/archfarchnad dychmygol
- archwilio pwysigrwydd gwahanol rifau yn y diwylliannau a'r traddodiadau gwahanol

## Datblygu'r Gymraeg

- dechrau mynegi/cyfleu teimladau ac emosiynau yn Gymraeg trwy ddarllen ac ysgrifennu testunau syml sy'n ymwneud â materion moesol
- trwy chwarae rôl/chwarae byd bach/coginio, profi'r delweddau a'r blasau sy'n rhan annatod o'r diwylliannau a geir yng Nghymru

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- datblygu meddwl chwilfrydig trwy weithgareddau 'chwilota' strwythuredig yn yr amgylchedd dysgu awyr agored, fel datblygu llwybrau/cynlluniau
- archwilio'r amgylchedd lleol a'r wlad ehangach, gan nodi'r cysylltiadau diwylliannol amrywiol trwy weithgareddau dysgu trwy brofiadau a defnyddio TGCh

## Datblygiad Corfforol

- trwy'r plant yn rhannu a chydweithio ag eraill a chwarae gemau traddodiadol o ddiwylliannau eraill er mwyn gwella eu sgiliau llawdrin manwl
- trwy symud cyfarpar mawr, dylai plant ddod yn ymwybodol o faterion diogelwch i'w hunain ac i eraill

## Datblygiad Creadigol

- trwy archwilio amrywiaeth o ffynonellau seiniau dan do ac yn yr awyr agored gall plant trafod yr hyn sy'n well ganddyn nhw a rhannu 'emosiynau' o gerddoriaeth ag eraill
- trwy ddefnyddio amryw gyfryngau a gweadau gall plant creu a chopïo patrymau a ddefnyddir yn niwylliannau gwahanol.



# Y cyd-destun cyfreithiol a moesegol

Yn sgîl **Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976** mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail hil, naill ai'n uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu drwy wahanu neu erledigaeth.

Mae **Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000** yn ymestyn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ac yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

Cyflwynodd y **Ddeddf Diwygio Addysg (1988)** y cwricwlwm cenedlaethol 5–16, y rhwymedigaeth i ddarparu addysg grefyddol sy'n Gristnogol i raddau helaeth, a hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol plant. Mae ymrwymiad i gyfle cyfartal i bawb a pharatoi at fywyd mewn cymdeithas amlddiwylliannol yn ddimensiynau trawsgwricwlaidd pwysig y cwricwlwm ysgol.

Mae **Deddf Plant 1989** yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud â phlant. Un o'i hegwyddorion allweddol yw bod yn rhaid i ddarpariaeth gofal plant ystyried anghenion crefyddol, hiliol, diwylliannol ac ieithyddol y plentyn.

Mae **Deddf Safonau Gofal 2000** yn ymestyn y Ddeddf Plant ac yn cyflwyno safonau ar gyfer gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, crèches, gwarchodwyr plant, gofal y tu allan i'r ysgol a chwarae mynediad agored. Mae un o'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig a staff fynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal ac arfer gwrthwahaniaethol i bob plentyn.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)**
Nid oes ganddo statws cyfreithiol ond mae'n god moeseg a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd wedi'i gadarnhau gan wledydd ledled y byd. Mae'n cynnwys 54 o erthyglau, y mae llawer ohonyn nhw'n ymwneud ag arfer gwrthwahaniaethol.

# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

*A Process-Oriented Child Monitoring System* (gwaith ymchmil a ddechreuwyd 1976) gan F Laevers (Cyfres *Addysg trwy brofiadau*, Canolfan Addysg Brofiadol, Gwlad Belg). Rhaglen ar gyfer asesu ac arsylwi ar les plant a'r rhan maen nhw'n ei chwarae yw hon. Gellir gweld adran deunyddiau dysgu Saesneg a deunyddiau perthnasol eraill drwy ymweld â www.cego.be

*Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Canllawiau Atodol* (ACCAC, 2000) ISBN: 186112242X

*Anti-discriminatory Practice* gan R Millam (Continuum International Publishing Group Ltd) ISBN: 9780826454768

*A sure start for an uncertain future* gan G Claxton. Anerchiad allweddol i Gynhadledd Cymdeithas Prydeinig ar gyfer Addysg Plentyndod Cynnar, Mehefin 1999.

*Contemporary Issues in the Early Years* golygwyd gan G Pugh a B Duffy (Paul Chapman Publishing Ltd, 2006) ISBN: 9781412921077

*Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru* (ACCAC, 2001) ISBN: 1861123949

*Cynllun Cydraddoldeb Hiliol* Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2005–2008

*Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig* (ACCAC, 2003) ISBN: 1861125240

*Effective Early Learning – Case Studies in Improvement* gan C Pascal a T Bertram (Paul Chapman Publishing Ltd, 1997) ISBN: 9780761972938

*Experiencing Reggio Emilia* golygwyd gan L Abbott a C Nutbrown (Open University Press, 2007) ISBN: 9780335207039

*Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Cyfnodau Allweddol 1 i 4 yng Nghymru* (ACCAC, 2000) ISBN: 1861122225

*Global Citizenship Handbook* (OXFAM, 2002)

*Personal, Social and Emotional Development of Children in the Early Years Foundation Stage* gan H Mortimer (A QEd Publication) ISBN: 1898873178

*Start Right: The Importance of Early Learning* gan C Ball (Royal Society for the Encouragement of Arts, Manufactures and Commerce, 1994) ISBN: 9780901469151

*Supporting Early Learning* gan V Hurst a J Joseph (Open University Press, 1998) ISBN: 9780335199501

*Supporting Identity, Diversity and Language in the Early Years* gan I Siraj-Blatchford a P Clarke (Open University Press, 2000) ISBN: 9780335204342

*The Early Years: Laying the Foundations for Racial Equality* gan I Siraj-Blatchford (Trentham Books Ltd, 1993) ISBN: 9780948080647

*Unlearning Discrimination in the Early Years* gan B Brown (Trentham Books, 1998) ISBN: 9781858561226

*Young Children's Personal, Social and Emotional Development* gan M Dowling (SAGE Publications, 2005) ISBN: 9781412906913

Cyn defnyddio unrhyw wefan gyda phlant mae'n hanfodol bod yr ymarferydd yn mynd i'r wefan ymlaen llaw. Dylai wneud hyn i sicrhau bod yr wybodaeth/deunydd y mae'n bwriadu eu defnyddio yn:

- ategu dysgu'r plant
- perthnasol i'r gwaith a gaiff ei archwilio
- priodol i'r plant.

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol:
CRE Cymru, 3ydd Llawr, Tŵr y Ddinas, Ffordd y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AG
Ffôn: 029 2066 3710
www.cre.gov.uk

Ar gyfer adnoddau amlffydd, amlddiwylliannol a dinasyddiaeth:
The Festival Shop Ltd, 56 Poplar Road, Kingsheath, Birmingham B14 7AG
Ffôn: 0121 444 0444
www.festivalshop.co.uk

UNICEF
www.unicef.org.uk

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol:
Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP
Ffôn: 029 2022 8549
www.wcia.org.uk

Mae *Early Childhood Research & Practice (ECRP)* yn gyfnodolyn electronig sy'n cwmpasu pynciau sy'n ymwneud â datblygiad, gofal ac addysg plant o'u genedigaeth i 8 oed.
www.ecrp.uiuc.edu

Mae *The Incredible Years* yn rhaglenni y profwyd eu bod yn effeithiol, sy'n seiliedig ar ymchwil, ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad a chynyddu cymhwysedd cymdeithasol yn y cartref a'r ysgol.
www.incredibleyears.com

Mae Learning through Landscapes yn helpu lleoliadau/ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar i fanteisio ar eu mannau awyr agored ar gyfer chwarae a dysgu.
www.ltl.org.uk

Mae Persona Dolls yn rhoi ffordd effeithiol a phleserus o godi materion cydraddoldeb a cheisio dileu syniadau ystrydebol a gwahaniaethol gyda myfyrwyr, ymarferwyr blynyddoedd cynnar a phlant ifanc.
www.persona-doll-training.org



# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Addysgeg**
Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgil i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei ddilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd

ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**

Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**

Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**

Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**

Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion, ac felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferydd/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddyn nhw, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydyn nhw'n ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Cylch Chwarae'r Pentref, Pen-y-bont ar Ogwr

Cylch Chwarae Tiny Tots, Casnewydd

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant

Meithrinfa Si Lwli, Caerdydd

Mudiad Ysgolion Meithrin

Panel Cynghori ar Ddatblygiad Economaidd a Chymdeithasol a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Prosiect Sir Benfro ar Faetheg ac Iechyd Geneuol

Ymgynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

Ysgol Fabanod Troedyrhiw, Merthyr Tudful

Ysgol Feithrin Parc Caia, Wrecsam

Ysgol Gatholig y Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Gynradd Gymunedol Brynford, Sir y Fflint

Ysgol Gynradd Holton, Y Barri

Ysgol Gynradd Kitchener, Caerdydd

Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Pontypridd

Ysgol Gynradd y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru, Brynmawr

Ysgol Rhiw Bechan, Y Drenewydd.